

Sefydlwyd Academi Hywel Teifi ym Mhrifysgol Abertawe yn 2010 yn deyrnged i'r Athro Hywel Teifi Edwards er mwyn sicrhau parhad i'w waith fel ysgolhaig ac fel pencampwr dros iaith, llenyddiaeth a diwylliant Cymru. Treuliodd Hywel Teifi ei yrfa academiaidd ym Mhrifysgol Abertawe, a nod yr Academi yw sicrhau parhad ei weledigaeth, sef cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg a hybu cydweithio, mentergarwch a chreu cyfleoedd trwy gyfrwng yr iaith ar lefel genedlaethol a chymunedol.



Mae'r Academi'n addysgu a chefnogi cenedlaethau o garedigion yr iaith, ei llenyddiaeth a'i diwylliant.

- Mae'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer astudio'r iaith Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, a dysgu Cymraeg i Oedolion.
- Mae'n cynnig addysgu blaengar sy'n ymateb i anghenion y diwydiant ym meysydd Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'n hybu addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg ar draws y pynciau a gaiff eu dysgu yn y brifysgol, gan gydweithio'n strategol ac effeithiol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Dysgu

Dathlu



Datblygu

Mae'r Academi yn gartref i ymchwil o safon ryngwladol mewn amryw o agweddau ar iaith a llenyddiaeth Gymraeg a'r cyfryngau Cymraeg.

- Mae canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014 yn dangos i waith yr uned Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Abertawe ddod yn 1af o blith y sefydliadau o Gymru ac yn 2il yn y Deyrnas Unedig. Dynoda'r canlyniadau fod 100% o waith Academi Hywel Teifi o safon ryngwladol neu'n uwch na hynny.
- Rhoddir pwyslais ar gefnogi mentergarwch yn y Gymraeg. Trwy ddatblygu prosiectau newydd gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, nod yr Academi yw hybu'n diwylliant, ein hiaith a'n heconomi er budd rhanbarth y de orllewin, a Chymru gyfan.
- Mae'n gweithio i gynyddu proffil y Brifysgol o fewn y gymuned iaith-Gymraeg yng Nghymru a thu hwnt, yn benodol trwy gynnal a noddi gweithgareddau ar lwyfan cenedlaethol.

Gwnaeth Hywel Teifi gyfraniad unigryw fel ysgolhaig, hanesydd, awdur, darlledwr a chyfathrebwr, a dehonglydd treiddgar a ffraeth o'n diwylliant. Mae Academi Hywel Teifi am sicrhau y bydd y gwaith hwn yn parhau i ysbrydoli a dylanwadu ar genedlaethau'r dyfodol.


- Trefnir gweithgareddau a chydlynir prosiectau er mwyn cynnal y cof am Hywel ac er mwyn adeiladu ar y waddol a adawodd o'i ôl.
- Rydym yn noddi darlith goffa flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol.
- Mae'r Academi yn ariannu rhaglenni cymunedol sy'n agored i bawb yn ne orllewin Cymru i gael dysgu am hanes, llenyddiaeth a diwylliant eu bro a'u cenedl.



SUT I GEFNOGI

Credwn y dylai addysg drawsnewid bywydau pobl ifanc Cymru, datblygu ein cymunedau a chyfoethogi ein cenedl. Gallwch chi ein cynorthwyo i gyrraedd y nod hwn drwy sicrhau bod gwaith yr Academi'n parhau i ddatblygu ac ehangu er budd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ac iaith, llenyddiaeth a diwylliant Cymraeg y De Orllewin a Chymru gyfan. Bydd eich cefnogaeth yn ein helpu i gyflawni'n hamcanion, gan wneud gwahaniaeth i'r cenedlaethau a fydd yn ein helpu i lywio dyfodol y rhanbarth a'r wlad.

Er mwyn sicrhau twf pellach ar waith Academi Hywel Teifi, sefydlwyd **Cronfa Goffa Hywel Teifi** er mwyn codi incwm ychwanegol a fydd yn cefnogi prosiectau a darparu cyfleoedd ac adnoddau fydd yn newid bywyd ein myfyrwyr a chynorthwyo'r Brifysgol i weithredu fel sefydliad sydd yn agor y drws ar ddyfodol disglair i Gymry Cymraeg.



“Mae Academi Hywel Teifi yn ganolfan flaengar sy'n cyfrannu at ddiwylliant, economi a lles dinasyddion Cymru. Gofynnaf i chi ystyried rhoi i Gronfa Goffa Hywel Teifi gan y credaf y gallai wir wneud gwahaniaeth i ddyfodol ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ffynhonnell o gefnogaeth gwirioneddol i fyfyrwyr.”

- Huw Edwards



CRONFA GOFFA HYWEL TEIFI

Bydd y gronfa yn cefnogi prosiectau penodol:

- Bwrsariaethau i fyfyrwyr israddedig sydd am astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Bwrsariaethau i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Bwrsariaethau i fyfyrwyr deithio tramor er mwyn cyfoethogi eu dealltwriaeth o iaith a diwyllianau lleiafrifol eraill
- Cefnogi ymdrechion Coleg Meddygaeth a Choleg Gwyddor Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe i feithrin a chadw yng Nghymru feddygon ac ymarferwyr iechyd sy'n siarad Cymraeg

- Cynlluniau i alluogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i ddangos menter a sgiliau entrepreneuriaidd drwy roi prosiect ar waith a fydd o fudd i'r iaith Gymraeg
- Prosiectau sydd yn galluogi Academi Hywel Teifi i gynllunio a darparu mwy o adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr y Gymraeg
- Rhaglenni cymunedol yn ne-orllewin Cymru sy'n agored i bawb gael dysgu am hanes, llenyddiaeth a diwylliant eu bro a'u cenedl drwy gyfrwng y Gymraeg

Bydd eich haelioni yn coffau cyfraniad arbennig Hywel Teifi Edwards i fywyd Cymru ac yn sicrhau parhad llwyddiant y gwaith o hyrwyddo a datblygu gweledigaeth yr Academi a sefydlwyd yn ei enw. I gyfrannu, gallwch lenwi'r ffurflen atodedig.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am Academi Hywel Teifi yma:

www.abertawe.ac.uk/academihywelteifi



@AcademiHTeifi



/AcademiHywelTeifi

Cronfa Goffa Hywel Teifi

Diolch am gefnogi gwaith a gweledigaeth Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe.

Eich Manylion

Enw llawn:
Cyfeiriad:
.....
Côd Post:
Rhif ffôn:
Cyfeiriad e-bost:
Ydych chi'n un o raddedigion Prifysgol Abertawe? Ydw Nac Ydw
Os ydych, Blwyddyn Graddio:

Eich Dewis

Hoffwn i chi gyfeirio fy rhodd at:
Cronfa Goffa Hywel Teifi
Hoffwn i'm rhodd fod yn ddiennw

Rhodd Untro

Hoffwn roi rhodd untro o £
Hoffwn dalu â (ticiwch):
Siec Visa Mastercard Switch/Maestro
Sieciau'n daladwy i: **Brifysgol Abertawe**
Rhif y cerdyn:

Rhif diogelwch: (3 digid olaf y rhif ar y sribyn llofnod)
Dyddiad cychwyn: /
Dyddiad dod i ben: / Rhifyn:
Enw Deiliad y Cerdyn:
Llofnod:
Dyddiad:
Ticiwch yma os oes angen derbynneb arnoch
giftaid it
Os hoffech i'ch rhodd fynd ymhellach, gwnewch Gymorth Rhodd. Adferwch y dreth ar fy rhodd ac unrhyw rodd ddilynol y byddaf yn ei rhoi i Brifysgol Abertawe. Rydw i'n drethdalwr y DU ac wedi talu treth incwm neu dreth ar enillion cyfalaf ar y rhodd hon
Llofnod: Dyddiad:

Rhodd Reolaidd

Hoffwn roi £..... y mis/bob chwarter/yn flynyddol (dileer fel sy'n addas).
Am gyfnod o mis/blwyddyn/hyd nes y ceir sylw pellach (dileer fel sy'n addas).
Tynnir yr arian o'ch cyfrif ar yr 2il o bob mis ac mae hawl gennych ganslo'r cytundeb hwn unrhyw bryd.

Debyd Uniongyrchol

Cyfarwyddiad i'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol. Cwblhewch y ffurflen gyfan gan ddefnyddio pen belenbwynt a'i dychwelyd at:

Swyddfa Academi Hywel Teifi, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP
Rhif Adnabod y Cychwynnwr:

Enw a chyfeiriad llawn eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu

At Sylw: Y Rheolwr,

.....Côd Post:

Enw(au) Deiliad (Deiliaid) y Cyfrif:

Cod Didoli'r Gangen:

-

Rhif cyfrif Banc/Cymdeithas Adeiladu:

Cyfeirnod i'w ddyfynnu (Defnydd swyddfa yn unig):

Cyfarwyddiad i'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu

Taler Debydau Uniongyrchol i **Brifysgol Abertawe** o'r cyfrif a fanylir yn y cyfarwyddiad hwn yn amodol â'r dulliau diogelwch a sicrhwr drwy'r Warrant Debyd Uniongyrchol. Deallaf y gall Prifysgol Abertawe gadw'r cyfarwyddiad hwn, ac os felly, trosglwyddir manylion yn electronig i'm Banc/Cymdeithas Adeiladu.

Llofnod: Dyddiad:

Gall Banciau a Chymdeithasau Adeiladu wrthod Cyfarwyddiadau Debyd Uniongyrchol ar gyfer rhai mathau o gyfrifon.

Diolch am gefnogi Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe.

Am ragor o wybodaeth ynglyn â rhoi rhodd, neu am adael rhodd yn eich ewyllys, cysylltwch â Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfrwyr drwy e-bostio **dar@abertawe.ac.uk** neu drwy ffonio: **+44 (0)1792 295156**. Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau at: Swyddfa Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP. Mae Prifysgol Abertawe'n elusen gofrestrredig Rhif: 1138342

